Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig
Welsh Heritage Schools Initiative

EUSTORY

CYFLWYNWCH EICH HER SGILIAU I ENNILL GWOBR
GWOBR EUSTORY MYDG

Mae Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig (MYDG) yn aelod o EUSTORY, rhwydwaith o sefydliadau ar draws Ewrop sy'n trefnu cystadlaethau hanes yn seiliedig ar ymchwil ar gyfer pobl ifanc dros 16 oed.

Yng Nghymru, mae MYDG yn trefnu cystadleuaeth flynyddol sy'n annog pobl ifanc i ymgymryd ag ymholiad unigol sy'n gysylltiedig â threftadaeth Cymru. Dyfernir gwobr o £200 i'r ddwy ymgais orau (£100 i'r myfyriwr a £100 i'r ysgol).

At hyn, gellir rhoi enwau pum ymgeisydd ymlaen i fynychu'r campws Eustory blynyddol, lle bydd myfyrwyr o ledled Ewrop yn ymuno i wneud ystod o weithgareddau. Cynhelir y digwyddiad hwn gan amlaf mewn dinas Ewropeaidd, er ei fod yn y blynyddoedd diwethaf wedi ei gynnal yn rhithiol oherwydd y sefyllfa gyfredol.

Tystysgrif yr Her Sgiliau

Mae nifer o Heriau Cymunedol Tystysgrif yr Her Sgiliau â chyswllt agos â'r dreftadaeth Gymreig. Mae MYDG yn ystyried bod y gwaith a gyflwynir gan fyfyrwyr ar gyfer llawer o'r heriau yn addas ar gyfer ymgeisio yng nghystadlaethau EUSTORY MYDG, gyda chyflwyniad byr.

Heriau Tystysgrif Heriau Sgiliau a fyddai'n ateb gofynion EUSTORY MYDG

Mae ymgeiswyr sy'n ymgymryd â **Theithiau Cerdded Hanes - Her Gymunedol** yn gymwys i ymgeisio yng Nghystadleuaeth Eustory MYDG.

1. Cyflwynwch fanylion eich taith gerdded.
2. Darparwch adroddiad byr (tua 500 gair) yn:
   a) Disgrifio'r ymchwil a wnaethoch i greu'ch taith gerdded, ac sy'n
   b) Egluro sut mae eich taith gerdded yn gwella dealltwriaeth eich cyfranogwyr o'u hanes a'u treftadaeth leol.

Mae ymgeiswyr sy'n ymgymryd â **Her Gymunedol Cadw – Meddiannu'r Amgueddfa** yn gymwys i ymgeisio yng Nghystadleuaeth Eustory MYDG.

1. Cyflwynwch y gweithgareddau a'r deunyddiau a wnaethoch chi ar gyfer eich diwrnod meddiannu.
2. Darparwch adroddiad byr (tua 500 gair) yn:
   a) Disgrifio'r ymchwil a wnaethoch i greu eich gweithgareddau a'ch deunyddiau, ac sy'n
   b) Egluro sut y bydd gwneud eich gweithgareddau yn gwella dealltwriaeth y cyfranogwyr o'u hanes a'u treftadaeth.

Mae ymgeiswyr sy'n ymgymryd â **Her Gymunedol Amgueddfa Cymru/National Museum of Wales – Dweud Stori** yn gymwys i ymgeisio yng Nghystadleuaeth Eustory MYDG.

1. Cyflwynwch fanylion y stori a ddatblygwyd gennych a'r gweithgareddau a'r deunyddiau a wnaethoch chi.
2. Darparwch adroddiad byr (tua 500 gair) sy'n:
   a) Disgrifio'r ymchwil a wnaethoch i greu eich sesiwn adrodd stori, eich gweithgareddau a'ch deunyddiau.
   b) Eglurwch sut y byddai cyfranogi yn eich sesiynau dweud stori yn gwella dealltwriaeth y cyfranogwyr o'u hanes a'u treftadaeth.

SUT I YMGEISIO

Dylai myfyrwyr sy'n ymgymryd ag un o'r Heriau cysylltiedig â threftadaeth y Dystygrif Her Sgiliau ac sydd â diddordeb mewn ymgeisio am wobr EUSTORY MYDG GLICIO YMA i gyrraedd gwefan MYDG i gael hyd i ffurflen Gofrestru, y dylid ei **chyflwyno erbyn 28ain Chwefror 2022**.

Rhaid uwchlwytho ceisiadau erbyn Dydd Gwener 21ain Ebrill 2022.

The Moondance Foundation
HODGE FOUNDATION
cadw
Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government
Casgliad y Werin Cymru
People's Collection Wales